# Astudiaeth Achos Sbarcynni
# Ysgol Fabanod Widcombe, Caerfaddon

Mae Ysgol Fabanod Widcombe yn ysgol o 180 o ddisgyblion yng nghanol Caerfaddon. Gwnaethon nhw gofrestru ar y rhaglen Sbarcynni ym mis Medi 2020 yn rhannol mewn ymateb i ddiddordeb gan rieni, yn rhannol yn ymateb i'w hysgol a'u Hymddiriedolaeth yn datgan argyfwng hinsawdd yn gynharach y tymor hwnnw ac yn rhannol i hybu dealltwriaeth y plant o faterion amgylcheddol yr oeddent wedi dangos diddordeb arbennig ynddynt. yn ysgol enghreifftiol gyda chostau ynni isel ac mae staff yr ysgol yn ymatebol i fesurau ynni-effeithlon, gan ddisodli gosodiadau golau gyda LEDs pan allant a chadw llygad ar reolyddion boeleri.

> *"Mae'r plant wir wedi derbyn y neges mai eu byd nhw yw hwn ac mae angen iddynt ei wneud cystal ag y gallant iddyn nhw eu hunain."*
>
> \- Athro

## Cyfle i weithredu


Roedd yr ysgol wedi derbyn archwiliad ynni gan yr awdurdod lleol yn 2012 ac roedd yn awyddus i adeiladu ar hyn drwy gynnwys y plant mewn gweithgareddau arbed ynni. Gwelodd tîm rheoli'r ysgol gyfle i ategu'r prosiectau amgylcheddol oedd yn mynd rhagddynt yn yr ysgol drwy gofrestru gyda Sbarcynni, gan roi ffocws pendant i weithredu ar yr argyfwng hinsawdd.

> *"... llawer o weithgareddau hyfryd ... hygyrch dros ben... gall y plant weld y cynnydd yn syth."* - Athro

## Ennyn diddordeb y plant

Ennyn diddordeb y plant mewn arbed ynni oedd y flaenoriaeth o'r cychwyn cyntaf. Cynhaliodd rhiant wasanaeth ysgol gyfan ac yna cymerodd yr holl ddosbarthiadau ran mewn gweithdai gan ddefnyddio camera thermol i chwilio am fannau oer yn yr ystafell ddosbarth. Mae llythrennedd ynni wedi dod yn rhan o'r drefn bob dydd yn yr ysgol, ac mae'r plant yn darllen thermomedrau i gofnodi tymheredd yr ystafell ddosbarth ac yn creu posteri arbed ynni fel rhan o'u gwaith boreol.

**Er eu bod yn ifanc, mae'r plant 4-7 oed hyn yn ymwybodol eu bod yn gwneud yr amgylchedd yn well iddyn nhw eu hunain drwy leihau defnydd o drydan a nwy. Maen nhw'n deall bod hyn yn gysylltiedig â phlastigau, llygredd a'r newid yn yr hinsawdd.**




Sbarcynni
Energy Sparks

> *"Mae'r plant wir yn cymryd diddordeb ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fod yn fwy effeithlon o ran ynni."* - Athro

# Astudiaeth Achos Sbarcynni
# Ysgol Fabanod Widcombe, Caerfaddon

Mae'r gweithgareddau a'r adnoddau wedi bod yn hwb i drafodaethau ar ddefnydd ynni yn yr ysgol; gofynnir i'r plant am y ffordd orau o reoli tymheredd ystafelloedd dosbarth ac a oes angen goleuadau artiffisial yn y dosbarth drwy gydol y dydd.





## Mynd â'r neges arbed ynni adref

Mae rhieni ac athrawon wedi sylwi sut mae gwaith Sbarcynni wedi tynnu sylw'r plant. Mae'r plant ym mhob rhan o'r ysgol wedi cymryd rhan lawn mewn gweithgareddau a thrafodaethau ac mae rhieni'n nodi bod eu plant wedi bod yn frwd wrth ddod â'r neges arbed ynni gartref. Mae'r ysgol yn aml wedi anfon gweithgareddau Dysgu Gartref Sbarcynni i'r plant eu cwblhau gyda'u teuluoedd dros y cyfnod clo ac yn ystod gwyliau'r ysgol ac mae'r plant yn falch o weld eu gwaith yn cael ei ddathlu ar arddangosfeydd yr ysgol neu wedi'i gofnodi ar wefan Sbarcynni.

> *"Mae'n dda eu gweld nhw'n gwella eu dealltwriaeth o faterion [newid yn yr hinsawdd] a'u gweld yn cymryd perchenogaeth o ddefnydd ynni o amgylch y tŷ."*
>
> -Rhiant












## Arbed arian ac amser i ysgolion

Mae amser bob amser yn brin mewn ysgolion ac mae staff ysgol wir wedi gwerthfawrogi pa mor hawdd ydyw i weithredu ar ddefnydd ynni'r ysgol. Mae'r momentwm a grëwyd gan waith Sbarcynni yn cyfrannu at ddealltwriaeth staff o'u hôl-troed carbon eu hunain a sut i'w leihau yn ogystal ag ategu mentrau eco eraill yr ysgol fel yr wythnos Cerdded i'r Ysgol.

> *"[Mae Sbarcynni yn darparu] gweithgareddau hygyrch sy'n gwella ymwybyddiaeth, sy'n hawdd eu defnyddio a'u dilyn - pam na fyddai [ysgolion] am gymryd rhan?"*
>
> -Athro